# 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub[6]

9.1 Mae'r Panel wedi penderfynu bod ffi dyddiol/am hanner diwrnod yn gydnabyddiaeth ariannol briodol am y rôl bwysig a gyflawni'r gan aelodau cyfetholedig o awdurdodau sydd â hawliau pleidleisio (mae hyn yn cynnwys yr aelod cyfetholedig o Gyngor Tref neu Gymuned). Mae lefel y taliadau yn gyfwerth â'r cyfraddau dyddiol cyfredol ar gyfer cadeiryddion ac aelodau o gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru ym Mand 2. Mae'r Panel yn nodi na fu cynnydd yn lefelau'r taliadau hyn ar draws cyrff o'r fath ers 2010.

9.2 Gall prif gynghorau, APCau ac ATAau benderfynu ar uchafswm y dyddiau mewn unrhyw un flwyddyn y gall aelodau cyfetholedig gael tâl amdanynt.

9.3 Nodir y penderfyniadau isod:

**Penderfyniad 38: Mae'n rhaid i Brif Gynghorau, APCau ac ATAau dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (Tabl 6) (sydd â hawliau pleidleisio).**

**Tabl 6:** Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio)

| | |
|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £256<br>(4 awr a throsodd)<br>£128 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £226 ffi ddyddiol<br>(4 awr a throsodd)<br>£113 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio | £198<br>(4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |
| Cynghorau tref a chymuned sy'n eistedd ar bwyllgorau prif gynghorau | £198<br>(4 awr a throsodd)<br>£99 (hyd at 4 awr) |

**Penderfyniad 39: Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.**

**Penderfyniad 40: Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr**

[6] Nid yw'r adran hon yn berthnasol i aelodau cyfetholedig o gynghorau tref a chymuned.

**hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).**

**Penderfyniad 41: Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.**

**Penderfyniad 42: Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu.**

**Mae penderfyniadau'r Panel ynghylch Teithio a Chynhaliaeth, Ad-dalu costau gofal ac Absenoldeb Teuluol bellach wedi'u nodi mewn adrannau ar wahân o'r Adroddiad Blynyddol hwn.**